OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 5 (Cy. 2)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A449 a'r A40 (Cyfnewidfa Coldra, Casnewydd i Gylchfan Hardwick, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *5 Ionawr 2024* |
| *Yn dod i rym* | *13 Ionawr 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o gefnffyrdd yr A449 a'r A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd bod llwythi anwahanadwy annormal yn cael eu cludo.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984([1]), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A449 a'r A40 (Cyfnewidfa Coldra, Casnewydd i Gylchfan Hardwick, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Ionawr 2024.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw cefnffordd yr A449 Casnewydd i Gaerwrangon a chefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri;

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith o gludo'r llwythi anwahanadwy annormal sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "y cyfnod cau" ("*closure period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 13 Ionawr 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 5 Ionawr 2024

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

**Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro**

1. Y darn o gerbytffordd tua’r gogledd yr A449 sy’n ymestyn o gerbytffordd gylchredol Cyffordd 24 (Cyfnewidfa Coldra), Casnewydd hyd at drwyniad ffordd ymuno tua'r gogledd yr A449 a’r A40 (Cyfnewidfa Rhaglan).

2. Y darn o ffordd ymuno neilltuedig tua’r dwyrain yr M4/A449 wrth Gyffordd 24 (Cyfnewidfa Coldra), Casnewydd sy’n uno â cherbytffordd tua’r gogledd yr A449.

3. Y darn o ffordd ymuno tua’r gogledd yr A449 (Cyfnewidfa Brynbuga) o’r A472.

4. Y darn o gerbytffordd tua’r gorllewin yr A40 sy’n ymestyn o’i thrwyniad â ffordd ymuno tua’r gorllewin Cyfnewidfa Rhaglan hyd at ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Hardwick.

5. Y darn o ffordd ymuno tua’r gorllewin yr A449/A40 (Cyfnewidfa Rhaglan).